

NEPELL O'R TIR MAWR

Pan yn Syracuse ac Efrog Newydd yn 2002 ar wahoddiad y North American Association for Welsh Cultural and Historical Studies cefais y pleser o gwmni Twm Morys ac Iwan Llwyd. Am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd teimlais fy mod yng nghwmni yr hen lwyth. O'r seiat estyngiedig yma y daeth syniadau rhain.

It is not the idle dreamer who escapes from reality. It is practical men and women, who turn to a life of action as a refuge from insignificance¹

Cysylltu a gwreiddiau (dychmygol neu ddim), trafod "gwirioneddau" heb orfod trafod creffydd na gwleidyddiaeth. Dyna yw hyfrydwch Mytholeg

Dwi rioed wedi tynnu llun o Ynys Gwales go iawn, a does gennai ar hyn o bryd, ddim bwriad o wneud. Ynys hollol ddychmygol, rhith yw hi i mi, breuddwyd yn wir, sydd yn medru symbylu llawer stâd o feddwl.

Dyma fi yn codi o'm gwely a mynd i lawr y grisie yn noeth i sgwennu hyn o eiriau ddaeth i'm meddwl. Gan obeithio nad oes neb arall o gwmpas yn y ty am ddau y bore..y fam yn nghyfraith, y plant, y wraig hyd yn oed. Dyma fi unwaith eto yng Ngwales fy myfyrdod, ar yr Ynys honno sydd o fewn cyrraedd ac eto yn ddigon pell oddiwrth y Tir Mawr.

Wrth feddwl am y thema 'Gwales' yn fy ngwaith diweddar, r'wyn sylweddoli fod y thema hon wedi bod gyda mi gydol fy ngyrfa fel artist, ac mae'r lluniau sydd yn cael eu cynnwys yn y gyfrol hon, fellu, yn olrhain hyn yn ol. Cof fel gogor sydd gennyf i, ond mae'n od gweld, o edrych yn ôl ar waith y gorffennol sut mae ryw gof cynhenid yn y gwaith ei hun, pob llun yn cofio y lluniau a ddaeth o'i blaen, er i mi rywsut anghofio. Fellu, mae cysylltiad llawer cryfach nac y tybiais, yn rhedeg trwy bopeth, nid yn unig y llawysgrif ond hefyd y thema. Obsesiwn bron iawn.

Mae'n hawdd credu fod creu celfyddyd, CREU o unrhyw fath, boed farddoniaeth, cerddoriaeth neu ddarlunio, yn broses sydd yn gosod yr artist ar Ynys Gwales y meddwl. Mae stori dda sydd yn lloni'r galon a diddori'r meddwl yn difyr'r cwmni, yn ein cadw yn hapus tra ar yr ynys. Mae ysbaid yng Ngwales yn angenrheidiol, fel y tân ar aelwyd yn cadw'r oerni a'r tywyllwch draw. S'dim gwin na chwrw, na gwledd na chyfoeth all gadw'r oriau duon draw yn well na chwmni o storiwyr yn llawn dyfalu, dychymyg a sgwrs.

Pan mae popeth wedi pylu a bywyd yn boen, mae stori dda, yn anad dim, un drist fel arfer, yn adfywio'r synhwyrâu sydd yn llechu yn nghyrion y pen. Does, yn yr un modd, ddim byd tebyg i'r cynwrf, (adrenalin, endorphins?) sydd yn dod o feddwl am syniad newydd, dyna yw pleser creu peintiad, heb wybod o funud i funud beth ddaw nesa', a yw ar fin dinistr neu 'eureka'. Gwirionedd y chwedl yw ei dealltwriaeth y gall storiâu pen Bran ddiddanu'r gwyr ar yr ynys am yr holl flynyddoedd. Fel yn y cyfnod yn dilyn y rhyfel byd cyntaf, dealodd y dynion ar ynys Gwales mae dim ond y funud hon oedd o bwys, a bod y funud honno yn cysylltu a phob munud a fu ag a fydd.. a dyna'r cwbl sydd. Dim duwiau, dim nefoedd. Doe's dim gorchwyl mwy i fywyd na hwyluso'r fordaith, i ni ac i eraill. A'i deffro allan o'r ymwybyddiaeth hon yn ôl i anwybodaeth wnaeth y gwyr a aeth yn ôl gartref, neu a'i fel Odysseus yn gwrthod gwahoddiad Calypso i aros ar yr ynys hyd a byw am byth, a'i huno a wnaethant o'r freuddwyd am fywyd diddiwedd?.

Wrth bysgota a hela r'oeddynt yn rhuddhau eu hunain o'r gwaith parhaus oedd ynglhwrm wrth yr adre' amaethyddol, mynd yn ol i fyd gwell a hawshela a chasglu llysiau, lle r'oedd mwy o amser i ymgom a thrafod.

Ni fu gennym yng Nghymru ddinasoedd mawr ysblenydd, lle y gellm ymhel i drin a thrafod. Bu

Gwales yn debyg i'r syniad hwnnw o ddinasoedd Nineveh ac Anatolia. Cyfle arall i droi oddiwrth gwaith trahaus y ffermydd i fyd o strydoedd culion, ystafelloedd esmwyth, mannau i gysgodi a cholli eich hunain. A'i dyna pam fod Efrog Newydd yn cyfleu ryw syniad o fod yn Gwales, rhaid bod yn ddiethryn i radde, (er fod Caerdydd wedi bod yn Gwales i mi am hir, ar ol priodi a c ym-gartrefu, rhaid chwilio am rhywle arall, oddiar y Tir Mawr, i fod yn Gwales?), ac mae Efrog Newydd yn llawn dieithriaid, neu Manhattan o leia. Neb yn gwybod lot mwy na chwi, newydd ddyfodiaid oll. Bu Twm, Iwan a finne yn Efrog Newydd ar ol deffroad mawr 09/11. Deffroad i'r ffaith fod eu cred hwy, a ninnau hefyd, fod y Farchnad wedi trechu popeth, wedi arwain at 'ddiwedd hanes' yn hollol ddi sail. Yn ddisymwth ac o nulle daeth grym terfysgol newydd i'r fae gan lorio symblyaeth y Farchnad fyd eang yn chwap. Deffroad sydyn o ddealtwriaeth nad oedd y byd tu allan i'r UDA y peth y dychmygwyd iddo fod. Yn ffurf Al Quaida, nid gelyn o'r cannol oesoedd sydd yma chwaith, fel r'oedd modd i gredu, ond gelyn ol fodern. Gelyn sydd yn arddel ei wirionedd ei hun, yn rhydd o eidiolog unrhyw un wladwriaeth, yn gwibio o le i le yn gorfforol ac ar rwydwaith y we, yn cael ei ariannu yn rhyng wladol. Yn rhydd o rwystredigaeth, na dial hawdd, gan nad ydynt a chartref i'w fomio. Gelyn sydd fel y multi nationals, yn rhan o fyd newydd sbon, er fod eu crediniaeth grefyddol yn un mor hen, ac yr un mor dwp, a dynol ryw. Mae ffantasiau o un fath neu gilydd wedi cadw'r rhod yn troi erioed; crefydd, impirialaeth, comiwnyddiaeth, athronyddiaith, gwyddoniaith. A'i ar ynys Gwales mae'r ffantasiau, neu ar y Tir Mawr?.

Efallai mae esgus yw yr holl siarad am Gwales, yr holl athronyddia, esgus i mi gael rhai oriau yn y stiwdio yn creu lluniau yn ddidramgwydd, dianc rhag cyfrifoldebau gwraig a phlant, creu delweddau fel oeddwn pan yn blentyn ac yn fy ardegau, yn fy lloft, yn y garafan, ym mhell bell i ffwrdd mewn gwlad arall o bapur "lapio" brown, am oriau di bendraw. Yn yr achos hwn, efallai mai esgus yw i roi y llyniau hyn at eu gilydd au clymu o fewn parsel rhwydwaith barddonol a storiol y Mabinogi. Os esgus yw, mae'n well esgus na chael y lluniau yn gefndir i stori bywyd a gyrfa yr artist, a mwy diddorol bid siwr. Wrth feddwl am y peth, mae'n dod yn fwy amlwg i mi fy mod wedi gwario rhan helaeth o fy mywyd ar ynys Gwales. Wrth ddweud hynny, hoffwn feddwl mae celf o brotest yw fy ngwaith, (ymgais efallai i roi siap a llun i storiau Pen Bran). Celf sydd yn efelychu rhinweddau y pethau yr ydym ar fin eu colli drwy golli diwylliannau lleiafrifol. Nid cenedlaetholdeb gul mor spardun, fel y tyb llawer, ond celf sydd yn gwneud safiad yn erbyn cyd ymfurfiaith Eingl Americanaidd, y "globaleiddi" sydd yn ddim byd mwy na sathru ar bopeth gwahannol, gwreiddiol.. R'wyn sylweddoli o wneud gwaith fel hyn, nad yw ei apel yn eang efallai, ond mae iddo apel mwy eang na'r dalgylch 'Cymreig' yn unig. R'ydynt dan fygythiad ym Mecsico, gogledd Sbaen, Zimbabwe, Cuba, Gwlad Pwyl, .llefydd y bu'm ynddynt yn arddangos. R'wyf hefyd yr un mor sicr mai yma yng Nghymru mae fy lle priodol i weithio, er fod y farchnad a'r cyfleoedd yn well mewn llefydd erail.

Maen't yn dweud fod celf weledol yn ddi-iaith, goruwch iaith. Wrth gwrs, fel popeth arall, mae hi yn iaith iddi hi ei hyn sydd yn croesi ffiniau (er fod y darlenniadau ohonni yn medru newid o le i le ar hyn o bryd, llai tebygol fydd hyn wrth i bawb weld y byd drwy lygaid Americanaidd). Iaith yw celfyddyd, iaith sydd ynghlwm yn y dychymyg dynol fel pob iaith arall, ac un sydd yn newid ac addasu, cydymffurfio neu herio yn ôl galwadau y dydd a meddylfryd yr artist unigol a llwythol. Er ei bod y ffaith fod celf yn agored i bawb, dim ots o'i hiaith na'i daliadau, mae hi yn dod yn amlwg i mi erbyn hyn, mae peintio yn Gymraeg ydwi'n ei wneud.

Iwan Bala. 2003

¹ John Gray. *Straw Dogs. Thoughts on Humans and other Animals*. Granta 2002. Tud 194.